## Proffil Rôl Gwirfoddolwr / Gwirfoddolwraig : Llwybr Cerdded Kyffin Williams –

## Arweinydd Teithiau Cerdded

Gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae Oriel Môn yn gweithio ar y cyd gyda'r elusen *Living Streets* i ddatblygu map teithiau cerdded dwyieithog sy'n canolbwyntio ar gelf yr arlunydd Cymreig enwog, Kyffin Williams. Mae ei baentiadau yn dangos tirwedd ac arfordir gwyllt Cymru, gan gynnwys nifer o Ynys Môn. Bydd y map cerdded a'r dudalen we gysylltiedig yn darparu gwybodaeth am Kyffin a rhai o'i baentiadau, gyda theithiau wedi'u cynllunio i gael gwerthfawrogi lleoliadau'r gweithiau celf hyn.

Rôl yr Arweinydd Teithiau Cerdded yw arwain grwpiau bychan ar deithiau cerdded i fforio'r lleoliadau a nodir ar y map Llwybrau Cerdded Kyffin Williams sydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect.

Gyda chymorth gan Oriel Môn a staff *Living Streets* byddwch yn:

- Derbyn hyfforddiant Arweinydd Teithiau Cerdded ar-lein
- Datblygu eich gwybodaeth o'r Llwybrau cerdded Kyffin Williams
- Trefnu ac arwain teithiau cerdded sydd yn hysbysu pobl am waith Kyffin Williams ar Ynys Môn
- Rhyngweithio gyda'r grŵp a sicrhau bod y daith gerdded yn brofiad pleserus i bawb
- Derbyn adborth gan y cerddwyr

## Addasrwydd ar gyfer y Rôl

Rydym yn chwilio am bobl a all wirfoddoli yn achlysurol. Bydd y rôl hon yn addas ar gyfer pobl sydd:

- Ag agwedd bositif, gyfeillgar a chymwynasgar ac sydd yn hyderus yn siarad gydag aelodau o'r cyhoedd
- Yn mwynhau siarad gyda phobl ac sydd yn medru bywiogi gwybodaeth ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd
- Â diddordeb mewn celf a thirwedd Ynys Môn.
- Yn mwynhau gwirfoddoli'n annibynnol yn ogystal â fel rhan o dîm
- Â rhywfaint o brofiad mewn arwain teithiau cerdded, neu sydd a dim profiad ond sydd eisiau dysgu sut i arwain teithiau cerdded

## Gwybodaeth Bellach

Cyswllt i Wirfoddolwyr: Esther Roberts, Uwch Reolwr
E-bost: estherroberts@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 752009

Beth fydd angen i chi ddod gyda chi: Dillad cyfforddus ac addas ar gyfer y dasg. Bydd dillad PPE yn cael eu darparu pan bo angen. Dim ond ychydig o ddillad sydd gennym ar gyfer tywydd oer / gwlyb a thywydd sych / poeth felly dewch â dillad addas ar gyfer tasgau awyr agored.

Hyfforddiant:
Bydd *Living Streets* yn darparu cwrs hanner diwrnod ar-lein i hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded a bydd Oriel Môn yn darparu hyfforddiant am Kyffin Williams ac yn rhoi trosolwg o'i gasgliadau a'i fywyd.

Amser:
Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal bore'r 9fed o Fehefin 2021 gyda'r teithiau cerdded yn cael eu cynnal tua diwedd mis Mehefin 2021. Bydd pob taith gerdded yn para 2-3 awr (gan gynnwys amser cyrraedd a dadfriffio).

Costau:
Darperir costau teithio rhwng y cartref a'r man gwirfoddoli. Darperir manylion ar gyfer hawlio costau yn eich cwrs sefydlu.

**Mae'r rôl hon yn wirfoddol yn unig ac nid yw'r trefniant hwn i fod i fod yn un sy'n rhwymo'n gyfreithiol neu'n gontract cyflogaeth.**

**Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol**

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

ORIEL MÔN

LIVING STREETS CYMRU